# PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL
# 12 TACHWEDD 2020

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd drwy fynychu o bell ddydd Iau, 12 Tachwedd 2020.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Sean Bibby, Haydn Bateman, Geoff Collett, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Patrick Heesom, Kevin Rush, Andy Williams ac Arnold Woolley

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr: Dave Evans (yn lle Paul Shotton) a Mike Peers (yn lle Richard Jones)

**YMDDIHEURIADAU:** Uwch-Reolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg), Y Cynghorydd Carolyn Thomas (Is Arweinydd ac Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad) Y Cynghorydd Billy Mullin (Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol ac Asedau), Y Cynghorydd Glyn Banks (Aelod Cabinet Cyllid), Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Cyllid Strategol a Chyfrifydd.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Swyddog Gwasanaethau Dinesig ac Aelodau a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 22. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 23. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 2020, fel y cawsant eu cynnig a’u heilio gan y Cynghorwyr Bateman a Dunbobbin.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2020, fel y cawsant eu cynnig a’u heilio gan y Cynghorwyr Collett a Dunbobbin. Diolchwyd i Swyddogion am eu hymateb i’r cwestiynau a godwyd yn y cyfarfod hwn.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r ddwy set o gofnodion fel cofnod cywir.

## 24. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Wrth gyflwyno’r adroddiad, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod yr holl gamau gweithredu wedi eu cwblhau, gan gynnwys cais y Cynghorydd Richard Jones am wybodaeth ar effaith y sefyllfa o argyfwng ar Leoliadau y Tu Allan i’r Sir.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gan y Cynghorwyr Dunbobbin a Rush.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

## 25. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlinellodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ddau adroddiad oedd wedi eu gohirio nes y cyfarfod nesaf oherwydd nifer yr eitemau ar y rhaglen hon.

Cynigodd y Cynghorydd Dunbobbin gefnogi'r argymhellion, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Rush.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; a

(b) Bod Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 26. BRIFFIO YNGHYLCH SEFYLLFA FRYS (LLAFAR)

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar y sefyllfa gyfredol gan gynnwys ystadegau lleol a rhanbarthol. Ychydig o aflonyddu a fu ar wasanaethau'r Cyngor yn ystod y cyfnod clo byr sydd bellach wedi dod i ben. Roedd yr holl wasanaethau bellach yn gwbl weithredol ac roedd adnoddau ychwanegol yn cael eu dyrannu i'r gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cadeirydd, rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad bras ar statws ysbytai argyfwng y rhanbarth.

Cynigiodd ac eiliodd y Cynghorwyr Dunbobbin a Rush fod y diweddariad yn cael ei dderbyn.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn y diweddariad ar lafar.

## 27. BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU – BARGEN DWF DERFYNOL

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i ystyried y dogfennau allweddol gofynnol i gyrraedd Cytundeb Bargen Terfynol ar gyfer Bargen Dwf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, cyn i'r Cabinet ei gymeradwyo. Roedd y dogfennau yn cael eu cyflwyno i'r holl bartneriaid i'w cymeradwyo i ffurfioli eu hymrwymiad cyfreithiol i Gytundeb y Fargen Derfynol.

Ers mabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 1, roedd Cytundeb Llywodraethu 2 wedi ei ddatblygu i gynnwys cyd-fuddiannau a risgiau'n ogystal â threfniadau cydgyllido. Yn Sir y Fflint, roedd yr adroddiad wedi ei gefnogi gan Bwyllgor

Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd ac Economi yn gynt yn yr wythnos yn dilyn gweithdy i'r holl Aelodau a gynhaliwyd yn flaenorol. Roedd y Cytundeb yn cynnwys darpariaethau ar swyddogaethau gweithrediaeth a swyddogaethau anweithredol, yr oedd angen cymryd penderfyniadau ar wahân arnynt gan y Cabinet a'r Cyngor Sir ar 17 Tachwedd 2020. Byddai adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael ei adrodd i'r cyfarfodydd hynny.

Rhoddodd y Prif Weithredwr eglurder ar y ddau ffurf o ymrwymiad ariannol ar gyfer y Cyngor oedd yn cynnwys cyfraniadau refeniw oedd eisoes wedi eu hadeiladu i'r gyllideb sylfaenol a goblygiadau refeniw cyfalaf benthyca i hwyluso'r llif arian negyddol ar gyfer y Fargen Dwf. Byddai angen cyfraniadau blynyddol o rhwng £100,000 ac £140,000 gan Sir y Fflint ar gyfer yr olaf, er mwyn cael mynediad at £240 miliwn o gyfalaf gan y ddwy Lywodraeth i ariannu'r Fargen Dwf dros 15 mlynedd. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn ddull gweithredu fforddiadwy ar gyfer y Cyngor yng nghyd-destun y Strategaeth Ariannol Tymor Canol. Roedd arweinyddiaeth yr holl bartneriaid wedi ymrwymo i'r Cytundeb a phe byddai'n cael ei lofnodi erbyn 17 Rhagfyr, byddai'n golygu y gellid cael mynediad at gyfalaf yn y flwyddyn gyfredol.

Cymharodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) ddarpariaethau y Cytundeb gyda rhai partneriaethau rhanbarthol cyfredol eraill. Rhoddodd drosolwg o'r model llywodraethu gan gynnwys darpariaeth i bob partner gadw rheolaeth dros y lefel o adnoddau roedd yn ei gyfrannu.

Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol ei fod yn fodlon gyda'r ystyriaethau ariannol y mae'n eu hystyried yn ddarbodus ar brosiect o'r maint hwn i gyflawni rhaglenni yn y blynyddoedd cynnar. Gan ategu sylwadau'r Prif Weithredwr ar yr ymrwymiadau ariannol, dywedodd y byddai angen adeiladu'r cyfraniadau blynyddol ychwanegol i gyllideb 2021/22.

Talodd y Cynghorydd Dunbobbin deyrnged i'r Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor a'i ragflaenydd, y Cynghorydd Aaron Shotton, am eu holl waith ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Gan ganmol yr adroddiad, dywedodd y byddai mwy o eglurder yn y geiriad o gymorth i godi ymwybyddiaeth o'r manteision. Gan siarad am gymhlethdod y Cytundeb, dywedodd y Prif Weithredwr bod amrywiaeth o wybodaeth ar gael ar wefan y Bwrdd Uchelgais Economaidd ac y byddai cyflwyniad fydd yn cael ei roi i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd ac Economi yn cael ei gylchredeg. Ymatebodd i gwestiynau eraill yn amlygu ymrwymiad yw holl bartneriaid a'r broses o greu prosiectau newydd o fewn y Fargen Dwf. O ran cysylltedd digidol, cytunodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) i gylchredeg gwybodaeth ar y maes hwnnw o waith gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd.

Ar ran y Cynghorydd Richard Jones, ceisiodd y Cynghorydd Peers eglurder ar yr argymhellion yn yr adroddiad a dywedwyd wrtho y byddai adborth fydd yn cael ei ddarparu i'r Cabinet yn golygu y gellid gwneud argymhellion manwl i'r Cyngor Sir, lle byddai eglurhad llawn yn cael ei rannu.

Dywedodd y Cynghorydd Peers y gallai Aelodau fod wedi cael gweithdy ym mis Hydref, yn hytrach na'r sesiynau briffio a drefnwyd. Roedd ganddo bryderon am y lefel o graffu ar bwnc mor bwysig ac fe holodd ynglŷn â gwaredu

tair o'r wyth rhaglen wreiddiol o fewn y cynllun busnes yn ymwneud â sgiliau, twf busnes, a chludiant.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod yr holl raglenni oedd yn bodoli eisoes wedi eu cynnwys mewn dull unol fel yr oedd y ddwy Lywodraeth yn ei ddyheu. Dywedodd fod gweithdai lleol a rhanbarthol wedi eu cynnal dros flynyddoedd blaenorol wedi bod yn boblogaidd ac wedi bod yn gyfle i Aelodau gymryd rhan a chraffu drwy gydol yr holl broses. Nid chafwyd unrhyw geisiadau am fwy o wybodaeth nac ymgysylltu yn sesiynau briffio diweddar yr Aelodau. Gallai methu llofnodi'r Cytundeb yn unol â'r amserlen ranbarthol roi'r prosiectau o fewn y Fargen Dwf mewn peryg. Byddai pwerau dirprwyedig yn ychwanegu hyblygrwydd i wneud unrhyw fân newidiadau heb unrhyw effaith sylweddol ar ysbryd y Cytundeb.

Gan ategu'r sylwadau am y gwaith a wnaed gan y Cynghorydd Aaron Shotton, canmolodd y Cynghorydd Roberts gyfraniadau'r Prif Weithredwr fel arweinydd rhanbarthol y gwaith. Siaradodd am bwysigrwydd y Fargen Dwf a cheisiodd gefnogaeth Aelodau yn ysbryd gweithio trawsbleidiol rhanbarthol.

Rhoddodd y Cynghorydd Bateman adborth cadarnhaol ar y cyflwyniad a roddwyd yn flaenorol gan Gyfarwyddwr Rhaglen y Bwrdd Uchelgais Economaidd. O safbwynt cyfraniadau partneriaid, dywedwyd fod y symiau'n gymesur â maint y boblogaeth.

Mynegwyd pryderon gan y Cynghorydd Heesom am yr amserlen a'r capasiti i Aelodau allu craffu ar y dogfennau mewn manylder. O ganlyniad, nododd yr argymhellion, ond teimlai na allai eu cymeradwyo.

Mewn ymateb, dywedodd y Cynghorydd Roberts y byddai cyfarfodydd yn y dyfodol gyda'r Cyfarwyddwr Rhaglen yn darparu'r cyfle i herio.

Atgoffodd y Prif Weithredwr Aelodau fod y Fargen Dwf yn gyfle am gyllid ychwanegol sydd y tu hwnt i ymrwymiadau prosiectau cyfredol. Dywedodd nad oedd unrhyw newidiadau mawr wedi eu gwneud i'r Cytundeb ers sesiynau briffio'r Aelodau, a groesawyd bryd hynny.

Amlygodd y Prif Weithredwr (Llywodraethu) feysydd allweddol o drefniadau llywodraethu fel yr ymrwymiad ar gyfer Adroddiad diweddaru chwarterol ar waith y Bwrdd Uchelgais Economaidd a darpariaeth i ganiatáu bod unrhyw benderfyniad am adnoddau ychwanegol gan y Cyngor gael ei wneud gan y Cabinet yn ddibynnol ar y broses Trosolwg a Chraffu arferol.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Woolley, cydnabu'r Prif Weithredwr bwysigrwydd cyhoeddi manteision y Fargen Dwf a siaradodd am ymgysylltu sylweddol gyda busnesau ac Aelodau.

Atgoffodd y Cynghorydd Thomas y Pwyllgor y byddai'r Fargen Dwf yn golygu buddsoddiad sylweddol i Ogledd Cymru. Cytunodd y gellid gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth gyda'r cyhoedd ac y gellid cyhoeddi dolenni i'r rhaglenni ar newid hinsawdd a rheoli carbon ar y wefan.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai arwyddo'r Cytundeb yn darparu cydnabyddiaeth hanfodol i Ogledd Cymru yn ogystal â manteision yn yr hir dymor.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Dunbobbin a Johnson, ac fe gymeradwywyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'n ffurfiol ac yn argymell fod y Cabinet a'r Cyngor yn cymeradwyo'r Cynllun Busnes Trosfwaol fel y ddogfen sy'n nodi'r trefniadau i gyflawni Bargen Dwf Gogledd Cymru fel y sail i ymrwymo i Gytundeb y Fargen Derfynol a derbyn y Llythyr Cyllid Grant gyda Llywodraethau'r DU a Chymru;

(b) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'n ffurfiol ac yn argymell fod y Cabinet yn cymeradwyo'r darpariaethau yng Nghytundeb Llywodraethu 2 sy'n ymwneud â swyddogaethau gweithrediaeth ac yn argymell fod y Cyngor yn cymeradwyo'r darpariaethau sy'n ymwneud â swyddogaethau anweithredol, a fod y Cabinet yn benodol yn mabwysiadu dirprwyaethau a'r Cylch Gorchwyl yng '*Nghytundeb Llywodraethu 2: Atodiad 1*' fel y sail ar gyfer cwblhau'r Cytundeb Bargen Derfynol a derbyn y Llythyr Cyllid Grant gyda Llywodraethau'r DU a Chymru;

(c) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r argymhelliad fod y Cabinet yn cymeradwyo'n ffurfiol ac yn argymell fod y Cyngor yn awdurdodi'r corff atebol, Cyngor Gwynedd, i arwyddo'r Llythyr Cyllid Grant ar ran y Partneriaid;

(d) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r Cabinet i gymeradwyo'n ffurfiol ac argymell fod y Cyngor yn cymeradwyo'r dull a ddefnyddir i gyfrifo'r gost tybiannol o fenthyg sydd ei angen i hwyluso'r llif arian negyddol ar gyfer y Fargen Dwf, ac i gynnwys darpariaeth o fewn cyllideb y Cyngor i dalu'r cyfraniad hwn a chraidd sefydledig a chyfraniadau atodol fel y nodir yng Nghytundeb Llywodraethu 2 (ac ym mharagraffau 2.5 – 2.7); a

(e) Bod y Pwyllgor yn cefnogi fod y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, y Swyddog Monitro a Swyddog Adran 151, yn derbyn awdurdod dirprwyedig i gytuno ar fân newidiadau i'r dogfennau gyda'r Partneriaid fel bo'r angen i gwblhau'r cytundeb.

## 28. DIWEDDARIAD AM Y STRATEGAETH ADFER

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i ddiweddaru'r Pwyllgor ar gofrestr risg portffolios corfforaethol a dulliau lliniaru fel rhan o'r broses cynllunio adferiad.

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol ers y mis diwethaf gan fod nifer o'r risgiau yn rai hir dymor. Fel yr awgrymodd y Cynghorydd Richard Jones yn y cyfarfod blaenorol, roedd y dull o gyflwyno patrymau risg wedi ei newid er eglurder.

O safbwynt yr amcanion adfer lefel uchel, canmolodd y Cynghorydd Banks y gweithlu am waith a wnaed yn ystod cyfnod yr argyfwng.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gan y Cynghorwyr Dunbobbin a Rush.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cofrestr risg a ddiweddarwyd a'r camau lliniaru risgiau o fewn y portffolios corfforaethol.

**29. DANGOSYDDION PERFFORMIAD CANOL BLWYDDYN AR GYFER MESURAU ATEBOLRWYDD CYHOEDDS, PORTFFOLIO AC ADFER.**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i adolygu perfformiad canol blwyddyn ar gyfer blaenoriaethau oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor gan ganolbwyntio ar fesurau perfformio ar draws y portffolios oedd fwyaf pwysig o safbwynt adfer.

Doedd dim materion o bryder sylweddol ac ni ellid defnyddio rhai dangosyddion yn yr un ffordd oherwydd y sefyllfa o argyfwng. Adroddwyd am sefyllfa sefydlog ym meysydd Gweithlu, Cyllid a Llywodraethu.

Manteisiodd y Cynghorydd Dunbobbin ar y cyfle i ddiolch i'r gweithlu am eu hymrwymiad yn ystod y cyfnod o argyfwng.

Talodd y Cynghorydd Mullin hefyd deyrnged i'r gweithlu a chyfeiriodd at y cynnydd da o fewn ei feysydd portffolio. Cafodd ei sylwadau eu cymeradwyo gan y Prif weithredwr a wnaeth hefyd gydnabod cefnogaeth werthfawr cydweithwyr Undebau Llafur yn ystod y cyfnod.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Peers ar lefelau casgliadau'r flwyddyn o ran Treth y Cyngor, soniodd y Prif Weithredwr am y dull gorfodi 'meddal' oedd wedi ei fabwysiadu yn ystod yr argyfwng cenedlaethol. Tra'r oedd lefelau casglu yn risg parhaol, byddai effaith o'r cam cyntaf o gamau gweithredu a gymerwyd ym mis Hydref.

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod trefniadau talu hyblyg wedi eu rhoi mewn lle ble bo'n bosib ac y byddai unigolion sy'n methu talu neu ymgysylltu efo'r Cyngor yn gorfod mynd drwy achos llys.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai diweddariad ar y gwaith hwn yn cael ei gynnwys mewn adroddiad i'r Pwyllgor a'r Cabinet ym mis Rhagfyr, yn manylu ar y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Cefnogwyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn derbyn y Dangosyddion Perfformiad Canol Blwyddyn ar gyfer Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, Portffolio ac Adfer, i fonitro meysydd o danberfformiad; a

(b) Bod y Pwyllgor wedi cael ei sicrhau gan yr eglurhad a roddwyd ar gyfer tanberfformio, sy'n cael eu hegluro'n bennaf gan yr aflonyddwch a achosodd y pandemig.

**30. <u>CYLLIDEB 2021/22 – CAM 1</u>**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar lafar ar ôl cyflwyno trosolwg o bwysau cost a strategaeth gyllideb gyffredinol ar gyfer 2021/22 ym mhob un o gyfarfodydd diwedd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Roedd pob un o'r pump pwyllgor wedi derbyn:

- Yr holl bwysau cost o fewn y rhagolygon ar gyfer eu portffolios, heb unrhyw gais i archwilio arbedion effeithlonrwydd costau ymhellach mewn cydnabyddiaeth nad oedd unrhyw beth o raddfa ar ôl;
- Y nod o rhwng £1miliwn a £2 filiwn o arbedion effeithlonrwydd 'gwirioneddol' ar draws y Cyngor, yn cynnwys ffyrdd mabwysiedig o weithio;
- Y safle cyfredol y dylid ceisio cadw'r cynnydd blynyddol yn Nhreth y Cyngor yn is na 5% fel yr uchafswm ;a
- Fod angen isafswm o 6% o gynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw i Sir y Fflint er mwyn clirio gofynion cyllideb a chadw Treth y Cyngor o dan 5%.

Rhoddodd y Prif Weithredwr grynodeb o amserlen y gyllideb a dywedodd fod sesiwn briffio i bob Aelod wedi ei drefnu ar gyfer 23 Rhagfyr er mwyn ystyried goblygiadau'r Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro oedd i'w gyhoeddi y diwrnod cynt. Mae ymgysylltiad yr holl gynghorau â Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi ei wneud yn glir mai'r disgwyliad yw isafswm o 5% o gynnydd cenedlaethol.

Ategodd y Cynghorydd Banks yr angen am gynnydd o 6% yn y Grant Cynnal Refeniw i Sir y Fflint. Cyfeiriodd at y berthynas bositif gyda Llywodraeth Cymru a diolchodd i'r ddwy Lywodraeth am y cymorth ariannol a dderbyniwyd yn ystod y pandemig.

Cafodd yr argymhellion - a ddiwygiwyd i adlewyrchu'r drafodaeth - eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Williams a Dunbobbin.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r diweddariad ar lafar gan y Prif Weithredwr yn dilyn cyfarfodydd y pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, fel a ganlyn:

- Mae'r holl bwysau cost a restrir wedi eu cymeradwyo;
- Ni wnaed unrhyw gynigion i adolygu meysydd penodol effeithlonrwydd costau / modelau gwasanaeth;
- Nodwyd a derbyniwyd targed effeithlonrwydd corfforaethol y gyllideb o £1-2 miliwn.
- Atgyfnerthwyd sefyllfa'r Cyngor o ran Treth y Cyngor – fel y nodwyd ym mhroses gosod cyllideb y llynedd –gan y pum pwyllgor; a

- Cefnogwyd yn llawn ddisgwyliadau'r Llywodraeth am isafswm o 6% o gynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw, a sefydlogrwydd a mynegeio mewn grantiau penodol.

## 31. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2020/21 (MIS 6) A MONITRO RHAGLEN GYFALAF 2020/21 (MIS 6)

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Rheolwr Cyllid Strategol adroddiad ar sefyllfa monitro'r gyllideb refeniw ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai ym Mis 6, a sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf 2020/21 ym Mis 6 cyn i'r Cabinet ei ystyried.

Monitro Cyllideb Refeniw

Roedd yr adroddiad yn adlewyrchu sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol petai popeth yn aros fel yr oedd, ac roedd yn ystyried sefyllfa ddiweddaraf cyhoeddiadau Grantiau Argyfwng Llywodraeth Cymru.

O ran Cronfa'r Cyngor, roedd y sefyllfa a ragwelwyd ar ddiwedd y flwyddyn - heb unrhyw gamau gweithredu newydd i ostwng pwysau costau a gwella'r elw o gynllunio effeithlonrwydd - yn ddiffyg gweithredol o £0.569 miliwn. Roedd yr amcanestyniad hwn yn cynnwys arbedion wedi eu cyflawni drwy adolygiad parhaus gwariant dianghenraid, ond doedd ddim yn cynnwys effaith risgiau agored sylweddol ar incwm Treth y Cyngor a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, na'r dyfarniad cyflog a fyddai'n cael ei dalu gan arian wrth gefn. Nodwyd y rhesymau dros y symudiad ffafriol o £0.352 miliwn o Fis 5 yn yr adroddiad, gan gynnwys amrywiant sylweddol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a Ieuenctid a Rhaglenni Strategol.

Rhoddodd y Rheolwr Cyllid Strategol fanylion llawn y risgiau ariannol allweddol a risgiau newydd, yn ogystal â'r sefyllfa ar gyllid argyfwng, cyflawniad arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn, arian wrth gefn a balansau fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Yn y Cyfrif Refeniw Tai, roedd tanwariant arfaethedig o £0.478m yn gadael balans terfynol heb ei neilltuo o £2.487m, a oedd yn uwch na'r canllawiau a argymhellwyd ar wariant.

Wrth ddiolch i'r tîm Cyllid am eu gwaith, croesawodd y Cynghorydd Banks y £0.200 miliwn ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ariannu rhan o ddyfarniad cyflog i athrawon.

Amlygodd y Cynghorydd Thomas gostau cludiant cynyddol fel maes o bryder.

Dywedodd y Prif Weithredwr, er yr argyfwng cenedlaethol, fod y Cyngor mewn sefyllfa gref ar hyn o bryd ac y gwnaethpwyd y mwyaf o hawliadau cyllid grant. Roedd nifer o risgiau sylweddol eto i'w datrys gyda Llywodraeth Cymru a byddai'r sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn yn effeithio ar y pwynt cychwyn ar gyfer cyllideb 2021/22.

O safbwynt Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol, yn dilyn cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y chwarter cyntaf, y disgwylid cyhoeddiad cadarnhaol ar arian i'w ddyrannu ar gyfer yr ail chwarter.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gan y Cynghorwyr Dunbobbin a Williams.

Rhaglen Gyfalaf

Roedd newidiadau i'r rhaglen ddiwygiedig yn ystod y cyfnod yn bennaf oherwydd cyflwyno ffrydiau cyllido grant ar gyfer Cynnal Priffyrdd, Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg, heb unrhyw effaith ar gyllid craidd y Cyngor. Roedd crynodeb o'r sefyllfa ar wariant cyfalaf ym Mis 6 yn dangos tanwariant arfaethedig o £1.369 miliwn ar Gronfa'r Cyngor i'w gario ymlaen i 2021/22. Nodwyd arbediad unigol o £0.027 miliwn am waith wedi ei wneud ar y Cae Pob Tywydd yn Ysgol Uwchradd Elfed, oedd yn is nag a ragwelwyd.

Yn dilyn cymeradwyo Rhaglen Gyfalaf 2020/21 - 2022/23 yn gynharach yn y flwyddyn gyda diffyg mewn cyllid o £2.264 miliwn, roedd effaith derbyniadau cyfalaf ac arbedion a gyflawnwyd wedi golygu rhagamcan diwygiedig o £0.403 miliwn o arian dros ben.

Rhoddodd y Cynghorydd Thomas enghreifftiau o wneud y mwyaf o gyllid grant ar gyfer priffyrdd a chludiant er mwyn mynd i'r afael â phroblemau perthnasol.

Canmolodd y Cynghorydd Banks y cymysgedd o brosiectau o fewn y Rhaglen Gyfalaf a thynnodd sylw at fodel 'Mockingbird'.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gan y Cynghorwyr Woolley a Dunbobbin.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Ar ôl ystyried Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 Mis 6, fod y Pwyllgor yn cadarnhau nad oedd unrhyw faterion penodol y mae'n dymuno adrodd i'r Cabinet; a

(b) Ar ôl ystyried Adroddiad Rhaglen Gyfalaf 2020/21 Mis 6, fod y Pwyllgor yn cadarnhau nad oedd unrhyw faterion penodol y mae'n dymuno adrodd i'r Cabinet.

## 32. RHAGLEN GYFALAF 2021/22 – 2023/24

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) adroddiad ar y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2021/22 - 2023/24 a oedd yn nodi buddsoddiadau mewn asedau ar gyfer y tymor hir i alluogi darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel gyda gwerth am arian, wedi ei rannu rhwng y tair adran: Statudol / Rheoleiddio, Asedau Wrth Gefn a Buddsoddiad. Fel yr adroddiad yn yr eitem flaenorol, roedd amcangyfrif o £0.403 miliwn o arian dros ben, gyda £0.617 miliwn o arian dros ben ar gyfer 2020/21.

Cafwyd cyflwyniad manwl yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- Strwythur - Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor
- Rhaglen Gyfredol 2020/21-2022/23
- Cyllid a Ragwelir 2021/22 - 2023/24
- Dyraniadau Arfaethedig – Statudol/ Rheoleiddiol, Asedau wrth Gefn a Buddsoddiad
- Crynodeb Rhaglen wedi ei hariannu'n gyffredinol
- Cynlluniau sy'n cael eu hariannu'n benodol
- Crynodeb Rhaglen Gyfalaf
- Cynlluniau posib ar gyfer y dyfodol
- Y camau nesaf

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cytunodd y Prif Swyddog i ddarparu gwybodaeth ar wahân ar ddatblygiad datrysiad ar gyfer mynwentydd Penarlâg.

Canmolodd y Cynghorydd Dunbobbin yr amrywiaeth o brosiectau oedd yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r Cyngor. Mewn ymateb i gwestiynau eraill, byddai'r Prif Swyddog hefyd yn darparu ymateb ar wahân ar a oedd addasiadau i gartrefi gofalwyr maeth hefyd yn berthnasol i ofalwyr sy'n berthnasau. O safbwynt cymorth i blant sy'n derbyn gofal, siaradodd am yr amrywiol fentrau gyda'r bwriad o geisio cadw teuluoedd gyda'i gilydd.

Gofynnodd y Cynghorydd Peers a ystyriwyd pryderon am y rhwydwaith ffyrdd lleol wrth wneud y dyraniad i orsaf trosglwyddo wastraff Standard Yard. Eglurodd Swyddogion fod y gwaith rhagarweiniol yn cael ei wneud ar opsiynau i aildrefnu'r rhwydwaith ffyrdd. Rhannwyd gwybodaeth hefyd ar raglenni ar gyfer gliniaduron newydd ac adnewyddu toiledau mewn ysgolion.

Rhoddodd y Cynghorydd Thomas ddiweddariad ar gyllid ar gyfer gorsaf trosglwyddo gwastraff Standard Yard. O safbwynt y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd, mynegodd bryderon ynglŷn â diwedd y rhaglen gyllido gan Lywodraeth Cymru a byddai'n ceisio cynnydd yng nghyllideb y flwyddyn nesaf er mwyn parhau i fuddsoddi yn isadeiledd ffyrdd y Sir tra'n parhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru. Aeth ymlaen i ganmol dull gweithredu'r Prif Swyddog a'i dîm o wneud y mwyaf o dderbyniadau cyfalaf a chyllid grant i gefnogi'r Rhaglen Gyfalaf.

Wrth ganmol yr adroddiad, canmolodd y Cynghorydd Heesom yr Aelod Cabinet a'r Prif Swyddog am eu gwaith.

Talodd y Cynghorydd Banks deyrnged i'r Prif Swyddog a'i dîm am eu gwaith ar fynd i'r afael â digartrefedd.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan y Cynghorwyr Heesom a Collett.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r dyraniadau a'r cynlluniau yn Nhabl 3 (paragraff 1.09) ar gyfer rhannau Statudol / Rheoleiddiol ac Asedau Wrth Gefn Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2021/22-2023/24;

(b) Bod y cynlluniau wedi'u cynnwys yn Nhabl 4 (paragraff 1.27) ar gyfer adran Buddsoddi Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 1.27 - 2021/22-2023/24 yn cael eu cymeradwyo;

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi bod y diffyg mewn cyllid i ariannu cynlluniau yn 2021/22 yn Nhabl 5 (paragraff 1.36) ar hyn o bryd yn y broses gymeradwyo yn caniatáu hyblygrwydd. Bydd opsiynau gan gynnwys cyfuniad o dderbyniadau cyfalaf yn y dyfodol, grantiau eraill (os ydynt ar gael), benthyca darbodus neu gynlluniau fesul cam dros nifer o flynyddoedd yn cael eu hystyried yn ystod 2021/22, ac yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau Rhaglen Gyfalaf y dyfodol.

(d) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynlluniau wedi'u cynnwys yn Nhabl 6 (paragraff 1.40) ar gyfer adran a ariennir yn benodol o Raglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor a fydd yn cael eu hariannu'n rhannol drwy fenthyca; a

(e) Nad oedd gan y Pwyllgor sylwadau i'r Cabinet i'w hystyried cyn bod y Cyngor yn ystyried adroddiad Rhaglen Gyfalaf 2021/22-2023/24.

## 33. STRATEGAETH GYFALAF YN CYNNWYS DANGOSYDDDION DARBODUS 2021/22 - 2023/24

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol y Strategaeth Gyfalaf wedi ei diweddaru cyn ei chyflwyno i'r Cabinet. Dogfen drosfwaol oedd y Strategaeth oedd yn dwyn ynghyd nifer o strategaethau a pholisïau, wedi eu rhannu i nifer o adrannau, ac roedd yn cynnwys manylion Dangosyddion Darbodus y Cyngor ar gyfer 2021/22 - 2023/24. Doedd dim newidiadau sylweddol ers y flwyddyn flaenorol a dim meysydd o bryder. Roedd crynodeb o'r pwyntiau allweddol yn cynnwys y tabl yn dangos y lefel o gyllid cyfalaf o'i gymharu â'r gyllideb gyffredinol lle rhagwelwyd newid ymylol dros y cyfnod o dair blynedd.

Nododd Swyddogion awgrym y Cynghorydd Banks am newid yn y geiriad yn y Crynodeb Gweithredol er mwyn amlygu fod y Strategaeth Gyfalaf yn ofyniad.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan y Cynghorwyr Williams a Dunbobbin.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn argymell y Strategaeth Gyfalaf i'r Cabinet; a

(b) Bod y Pwyllgor yn argymell i'r Cabinet:-

- Y Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2021/22 – 2023/24 fel y manylir o fewn Tablau 1, a 4 – 7 gan eu cynnwys, o'r Strategaeth Gyfalaf, ac

- Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol i achosi symudiadau rhwng y terfynau y cytunwyd arnynt ar wahân o fewn y terfyn awdurdodedig ar gyfer dyled allanol a'r ffin weithredol ar gyfer dyled allanol (Tabl 6 y Strategaeth Gyfalaf).

## 34. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12.45pm)

..............................
**Y Cadeirydd**